25 Ionawr 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Deryck Evans, Hefin Davies a Rhian Power o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Er bod cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2016-17, mae lle i gynghorau lleol ddatblygu a gwella eu trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus o hyd 7

1 Mae cynghorau lleol yng Nghymru yn rheoli symiau cynyddol o arian ac asedau cyhoeddus, ac am fod hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, mae angen iddynt sicrhau eu bod wedi rhoi trefniadau atebolrwydd cadarn ar waith 10

Mae incwm a gwariant blynyddol cynghorau lleol yn parhau i gynyddu, gyda chyfran fwy o wariant yn cael ei hariannu o drethi cyngor sy'n cynyddu 11

Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol yn cynyddu bob blwyddyn ac maent bellach yn cyfateb i £41.5 miliwn 16

2 Mae lle i gynghorau lleol yng Nghymru wella eu hamseroldeb o ran cyhoeddi eu cyfrifon blynyddol archwiliedig ac ansawdd y ffurflenni blynyddol a gyflwynir i'w harchwilio o hyd 21

Methodd dros 80 o gynghorau â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig 22

Mae cynghorau yn aml yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n anghyflawn neu sy'n cynnwys gwallau syml 23

3 Mae cynghorau lleol yng Nghymru yn parhau i gael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi ond mae cynghorau yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwy cyffredin 26

Bydd archwilwyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol 27

Cafodd dros 170 o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2016-17 27

Mae'n galonogol bod nifer o gynghorau yn mynd i'r afael â'r problemau mwyaf cyffredin sy'n arwain at farn archwilio amodol 29

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Nid yw nifer sylweddol o gynghorau lleol yn deall y fframwaith llywodraethu y maent yn gweithredu oddi mewn iddo ac nid ydynt yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol | 32 |
| | Ni all llawer o gynghorau roi tystiolaeth eu bod wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau | 33 |
| | Er bod nifer y cynghorau â gwefannau wedi cynyddu'n sylweddol, nid oes gan 108 o gynghorau drefniadau digonol ar waith i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 | 34 |
| 5 | Nid oes gan dros 50 o gynghorau lleol drefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion | 36 |
| | Os yw cynghorau lleol yn cyflogi staff fel arfer mae'n rhaid iddynt gofrestru â Chyllid a Thollau EM fel cyflogwr | 37 |
| | Nid oedd gan fwy na 50 o gynghorau drefniadau ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion yn ystod 2016-17 a rhoddodd cynghorau eraill drefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn honno | 37 |
| 6 | Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu a bydd yn cynnwys astudiaeth genedlaethol o effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol | 38 |
| | Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorau yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn | 39 |
| | Bydd fy archwiliad ar gyfer 2017-18 yn ystyried sut mae cynghorau yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â thaliadau rhodd a grantiau a delir o dan 'adnodd rhydd' adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | 40 |
| | Yn 2018, rwy'n bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol o waith archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn gweld a yw'n ddigonol ac yn effeithiol a nodi arfer da y gellir ei rannu ym mhob rhan o'r sector | 41 |
| | Gan edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt i hynny, bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer cynghorau lleol yn parhau i edrych ar faterion cyffredin sy'n codi yn ystod yr archwiliad blynyddol | 45 |

Atodiadau 48

Atodiad 1 – Cynghorau â chyfrifon hwyr ar 30 Tachwedd 2017 49

Atodiad 2 – Cynghorau sydd ag incwm/gwariant blynyddol dros £200,000 51

# Adroddiad cryno

## Er bod cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2016-17, mae lle i gynghorau lleol ddatblygu a gwella eu trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus o hyd

1 Mae dros 730 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae'r cynghorau hyn yn darparu gwasanaethau ar y cyd drwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Mae naw cydbwyllgor o'r fath yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyrff hyn, gyda'i gilydd, fel cynghorau lleol.

2 Hwn yw fy chweched adroddiad blynyddol sy'n crynhoi materion a nodwyd gan archwilwyr allanol yn ystod eu harchwiliad statudol o gynghorau lleol yng Nghymru. Bwriedir i'm trefniadau archwilio newydd, a gyflwynwyd yn 2015-16, helpu cynghorau lleol i ddatblygu a gwella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol dros amser.

3 Dengys canlyniadau fy ngwaith archwilio yn yr ail flwyddyn hon o'r dull archwilio diwygiedig nad yw llawer o gynghorau wedi deall gofynion y trefniadau newydd eto.

4 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio a gwblhawyd hyd at 30 Tachwedd 2017, ddeufis ar ôl y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig 2016-17. Ar 30 Tachwedd, roedd 701 allan o 743 (94%) o'r archwiliadau wedi'u cwblhau.

5 Mae tair prif adran i'r adroddiad hwn:

6 Mae Rhan 1 yn rhoi sylwebaeth ar y swm cynyddol o arian ac asedau cyhoeddus a reolir gan gynghorau lleol ledled Cymru a phwysigrwydd dangos bod yr adnoddau hyn yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol.

7 Mae Rhannau 2 i 5 yn adrodd ar y gwaith a wnaed gan archwilwyr ar fy rhan ac yn nodi nifer o bryderon archwilio cyffredin ym mhob rhan o'r sector. Mewn rhai achosion, nododd yr archwilwyr ddiffygion difrifol mewn cynghorau lleol unigol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn tynnu sylw at y materion hyn fel y gall cynghorau lleol ystyried a oes unrhyw wersi y gallant eu dysgu gan eraill a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu eu trefniadau eu hunain.

8 Noda Rhan 3 fy rhaglen archwilio yn y dyfodol sydd wedi'i llywio gan y materion a nododd archwilwyr yn ystod archwiliad 2016-17 a datblygiadau ehangach sy'n effeithio ar gynghorau lleol. Yn fy adroddiad ar ganlyniadau archwiliad 2012-13, ymrwymais i gyhoeddi ymlaen llaw y meysydd penodol y bydd archwilwyr yn canolbwyntio arnynt yn ystod yr archwiliad y flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn galluogi cynghorau lleol i nodi meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu eu trefniadau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r meysydd y bwriadaf ganolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf.

9 Nodir isod fy nghasgliadau cyffredinol o archwiliadau 2016-17.

## Mae cynghorau lleol yng Nghymru yn rheoli symiau cynyddol o arian ac asedau cyhoeddus, ac am fod hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, mae angen iddynt sicrhau eu bod wedi rhoi trefniadau atebolrwydd cadarn ar waith

10 Mae incwm a gwariant blynyddol cynghorau lleol wedi cynyddu 8% ers 2014-15. Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol yn cynyddu bob blwyddyn ac ar 31 Mawrth 2017, roeddent yn cyfateb i £41.5 miliwn. Ar 31 Mawrth 2017, roedd cynghorau lleol yn rheoli asedau hirdymor gwerth dros £215 miliwn.

## Mae lle i gynghorau lleol yng Nghymru wella eu hamseroldeb o ran cyhoeddi eu cyfrifon blynyddol archwiliedig ac ansawdd y ffurflenni blynyddol a gyflwynir i'w harchwilio o hyd

11 Methodd dros 80 o gynghorau â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig. Mae cynghorau yn aml yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n anghyflawn neu sy'n cynnwys gwallau syml.

## Mae cynghorau lleol yn parhau i gael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi

12 Bydd archwilwyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol. Cafodd dros 170 o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2016-17. Fodd bynnag, mae'n galonogol bod nifer o gynghorau yn dechrau mynd i'r afael â'r problemau mwyaf cyffredin sy'n arwain at farn archwilio amodol.

## Nid yw nifer sylweddol o gynghorau lleol yn deall y fframwaith llywodraethu y maent yn gweithredu oddi mewn iddo ac nid ydynt yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol

13 Ni all llawer o gynghorau roi tystiolaeth eu bod wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau. Er bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cynghorau sydd â gwefannau, nid oes gan dros 100 o gynghorau drefniadau digonol ar waith ar gyfer cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Nid oes gan dros 50 o gynghorau lleol drefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion.

## Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau lleol wella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol, a bydd yn cynnwys astudiaeth genedlaethol o effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol

14 Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar faint o gynghorau sy'n rheoli eu cronfeydd wrth gefn a'r ffordd y mae cynghorau yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â thaliadau rhodd a grantiau a delir o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn 2018, rwy'n bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol o waith archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd a nodi arfer da y gellir ei rannu ym mhob rhan o'r sector.

15 Gan edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt i hynny, bydd fy rhaglen yn parhau i edrych ar faterion cyffredin sy'n codi yn ystod yr archwiliad blynyddol. Ar gyfer y cynghorau hynny sy'n destun gofynion penodol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddaf yn adolygu'r trefniadau a wnaed ar gyfer paratoi adroddiadau, gan nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion lleol a nodir yn y cynllun llesiant lleol perthnasol.

# Rhan 1

Mae cynghorau lleol yng Nghymru yn rheoli symiau cynyddol o arian ac asedau cyhoeddus, ac am fod hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, mae angen iddynt sicrhau eu bod wedi rhoi trefniadau atebolrwydd cadarn ar waith



## Mae incwm a gwariant blynyddol cynghorau lleol yn parhau i gynyddu, gyda chyfran fwy o wariant yn cael ei hariannu o drethi cyngor sy'n cynyddu

### Mae incwm cynghorau lleol yng Nghymru wedi cynyddu mwy na £7 miliwn ers 2014-15 i £53.5 miliwn yn 2016-17 a chodir 75% o'r swm hwn o'r dreth gyngor

1.1 Mae cynghorau lleol yn codi incwm naill ai drwy gael praesept, drwy godi am nwyddau a gwasanaethau, drwy hawlio grantiau neu waredu asedau hirdymor.

1.2 Gorchymyn terfynol i'r awdurdod unedol dalu swm penodol o arian i'r cyngor lleol yw praesept. Caiff swm y praesept ei rannu'n gyfartal rhwng talwyr treth gyngor y gymuned a chaiff ei dalu'n llawn i'r cyngor lleol.

1.3 Mae cynghorau hefyd yn codi arian drwy godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor lleol. Fel arfer caiff tâl ei godi am y canlynol:

a Defnyddio neuaddau pentref/canolfannau cymunedol y mae cynghorau lleol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli

b Ffioedd claddu os yw'r cyngor lleol yn awdurdod claddu

c Taliadau am logi cyfleusterau chwaraeon


ch Taliadau meysydd parcio

1.4 Gall cynghorau hefyd godi arian i'w fuddsoddi mewn asedau hirdymor drwy wneud cais am grantiau, hawlio benthyciadau neu waredu asedau hirdymor. Fel arfer, caiff y defnydd o'r cronfeydd hyn ei gyfyngu i ddibenion penodol.

1.5 Ar y cyfan, mae incwm cynghorau lleol wedi cynyddu mwy na £7 miliwn ers 2014-15.

Arddangosyn 1: incwm cynghorau lleol rhwng 2014-15 a 2016-17

Mae praeseptau cynghorau lleol ac incwm arall wedi cynyddu £7 miliwn ers 2014-15.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru[1]

1.6 Yn 2016-17, cododd cynghorau lleol yng Nghymru dros £40 miliwn gan dalwyr y dreth gyngor drwy eu praeseptau. Mae hyn yn cyfateb i 75% o gyfanswm yr incwm o gymharu â 72% yn 2014-15 a 2015-16.

1.7 Yn 2016-17, cododd cynghorau lleol yng Nghymru gyfanswm o fwy na £13.5 miliwn o ffynonellau ac eithrio eu praesept o gymharu â £13.7 miliwn yn 2015-16. Nid yw cynghorau wedi gwneud fawr ddim cynnydd ers 2014-15 o ran cynhyrchu incwm ac yn 2016-17 codwyd llai o arian o ffioedd a thaliadau nag a godwyd yn 2015-16.

1 Mae data 2016-17 yn seiliedig ar ddata gwirioneddol o gyfrifon a gyflwynwyd gan 708 o gyrff (95%). Amcangyfrifwyd data ar gyfer 34 o gyrff eraill ar sail cyfrifon y flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer un cyngor.

1.8 Gwrthbwyswyd y gostyngiad mewn 'incwm arall' yn 2016-17 gan gynnydd mewn praeseptau a godwyd gan gynghorau lleol. Golyga hyn fod y dreth gyngor yn talu am gyfran gynyddol o gyfanswm gwariant cynghorau lleol. Yn fy adroddiad ar **Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm**, gwnes sylwadau ar y ffordd y mae awdurdodau unedol yn mynd ati i fanteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm. Efallai y bydd yr adroddiad hwnnw yn ddefnyddiol i gynghorau lleol wrth iddynt geisio datblygu'r ffordd y darperir gwasanaethau newydd.


## Ers 2014-15, mae gwariant cynghorau lleol wedi cynyddu £6 miliwn i fwy na £49.6 miliwn, sy'n cynnwys costau staff o bron i £16 miliwn

1.9 Mae gan gynghorau lleol nifer o bwerau a swyddogaethau statudol y gallant fynd i wariant arnynt yn gyfreithlon. Roedd y rhain yn cynnwys pwerau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a ymddangosiad pentrefi, gan gynnwys, er enghraifft, adeiladau a safleoedd allweddol, dyluniadau da, ac ymylon ffyrdd;
- b awyr agored ac ymarfer corff, gan gynnwys, er enghraifft, maes y pentref, diogelu tir comin, cyfleusterau hamdden, tiroedd pleser a llwybrau cerdded cyhoeddus, pyllau nofio a chyfleusterau i ymwelwyr â chefn gwlad;
- c cynulliadau, gan gynnwys pwerau sy'n ymwneud â thwristiaeth, adloniant a'r celfyddydau, neuaddau a chanolfannau a gefeillio;
- ch goleuadau cyhoeddus ac atal troseddau, gan gynnwys, er enghraifft, gwyliadwriaeth;
- d bod yn berchen ar randiroedd a'u darparu;
- dd iechyd, gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus, sbwriel a graffiti a dŵr a draenio pyllau dŵr;
- e cyfathrebu, gan gynnwys:
  - gwaith hawliau tramwy ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau;
  - llochesi a seddi;
  - meysydd parcio cerbydau a rheseli beiciau; a
- f phwerau sy'n ymwneud â'r ymadawedig, er enghraifft darparu mynwent.

Arddangosyn 2: cynnydd yng ngwariant cynghorau lleol rhwng 2014-15 a 2016-17

Mae gwariant cynghorau lleol wedi cynyddu mwy na £6 miliwn ers 2014-15.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.10 Ar y cyfan, mae incwm cynghorau lleol wedi cynyddu mwy na £6 miliwn (16%) ers 2014-15.

1.11 Mae cynghorau lleol yn cyflogi staff i weinyddu eu gweithgareddau. Mewn llawer o achosion, dim ond un aelod o staff, sef clerc y cyngor, a gyflogir gan y cyngor. Fodd bynnag, gall cynghorau mwy o faint gyflogi sawl aelod o staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau megis gweinyddu neu gynnal a chadw tiroedd.

Arddangosyn 3: nifer y cynghorau sy'n gwario mwy na hanner eu gwariant blynyddol ar gostau staff

Mae tua 10% o gynghorau lleol yn gwario mwy na hanner eu gwariant blynyddol ar gostau staff.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.12 Mae gwariant ar gyfer y sector cyfan wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2014-15.

1.13 Mae 32% o holl wariant cynghorau lleol yn ymwneud â chostau staff, gan gynnwys cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr. Yn 2016-17, gwariodd cynghorau lleol bron £16 miliwn ar gostau staff allan o gyfanswm gwariant o dros £49 miliwn. Mae costau staff yn amrywio rhwng cynghorau o lai na 10% i fwy na 90% o gyfanswm y gwariant. Mae tua 10% o gynghorau yn gwario mwy na hanner eu gwariant blynyddol ar gostau staff.

1.14 Gan fod cyfran fawr o'r costau cyffredinol yn cael ei gwario ar weinyddu'r cyngor yn hytrach na darparu gwasanaethau, mae angen i rai cynghorau ystyried p'un a ydynt yn sicrhau bod y cymunedau lleol a wasanaethir ganddynt yn cael gwerth am arian.


## Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol yn cynyddu bob blwyddyn ac maent bellach yn cyfateb i £41.5 miliwn

### Roedd cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol ar 31 Mawrth 2017 yn fwy na £41.5 miliwn ac maent wedi cynyddu mwy na £10 miliwn neu 33% ers 31 Mawrth 2014

1.15 Mae cynghorau lleol yn dal cronfeydd wrth gefn a balansau am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys ariannu gwariant nas rhagwelwyd a 'chynilo' ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae'n ofynnol iddynt neilltuo arian at ddibenion penodol yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, gall derbyniadau o waredu asedau hirdymor gael eu diffinio fel derbyniadau cyfalaf. Os felly, dim ond er mwyn ariannu gwariant cyfalaf y gellir eu defnyddio.

Arddangosyn 4: cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol rhwng 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2017

Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol wedi cynyddu mwy na £10 miliwn yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru


1.16 Mae'r symiau a ddelir gan gynghorau lleol fel cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu mwy na £10 miliwn (33%) yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf, sef 2014-15 i 2016-17.

1.17 Wrth bennu'r praesept, o dan y gyfraith mae'n ofynnol i gynghorau lleol ystyried gwerth arian a ddelir fel cronfeydd wrth gefn. Mae'n rhaid i gynghorau lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt a ph'un a ydynt yn bwriadu ariannu unrhyw ran o'u gwariant o gronfeydd wrth gefn ai peidio, neu a oes angen iddynt gynyddu'r symiau a neilltuir mewn cronfeydd wrth gefn.

1.18 Yn 2016-17, cadwodd 257 o gynghorau eu praesept ar yr un lefel neu ei gynyddu, er eu bod wedi gwario llai o arian nag a gawsant yn 2015-16. Roedd y cronfeydd wrth gefn a ddelid gan y cynghorau hyn ar 31 Mawrth 2016 yn fwy na'r praesept a bennwyd ganddynt ar gyfer 2016-17.

Arddangosyn 5: incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn cynghorau lleol

Bob blwyddyn ers 2014-15, mae incwm blynyddol cynghorau lleol wedi bod yn fwy na'u gwariant.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.19 Er bod gwariant wedi bod yn cynyddu, bob blwyddyn ers 2014-15, mae cynghorau lleol yng Nghymru wedi codi mwy o arian nag y maent wedi'i wario. O ganlyniad, yn 2016-17 bu cynnydd cyffredinol o fwy na £2.4 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn, sy'n cyfateb i gynnydd o 6% o gymharu â 2015-16.

1.20 Disgwyliaf i incwm a gwariant ym mhob rhan o'r sector gynyddu dros amser wrth i gynghorau lleol ddechrau rheoli mwy o wasanaethau ac asedau a drosglwyddir iddynt gan yr awdurdodau unedol. Fodd bynnag, mewn cyfnod o galedi ariannol, mae'n bwysig nad yw cynghorau yn ychwanegu'n ddiangen at y baich a osodir ar drethdalwyr, drwy godi mwy o incwm drwy'r dreth gyngor nag sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gweinyddu ei fusnes.

1.21 Mae'r ystadegau uchod yn awgrymu bod angen i rai cynghorau lleol ystyried yn ofalus a oes angen iddynt ddal lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ganddynt ar hyn o bryd ac a ddylid defnyddio rhai o'r balansau a ddelir i ariannu'r gwariant cyfredol, gan eu galluogi i bennu praesept is.

1.22 Mewn archwiliadau yn y dyfodol, rwy'n bwriadu edrych ar y rhesymau pam mae cynghorau yn dal cronfeydd wrth gefn a pham mae incwm yn fwy na gwariant bob blwyddyn.

## Ar 31 Mawrth 2017, roedd cynghorau lleol yn rheoli asedau hirdymor gwerth dros £215 miliwn


1.23 Mae cynghorau lleol yn berchen ar amrywiol gategorïau o asedau hirdymor, gan gynnwys.

- a Tir ac adeiladau – swyddfeydd, neuaddau, maes y pentref, rhandiroedd, mynwentydd a pharciau a chaeau chwaraeon
- b Cyfarpar a chyfleusterau awyr agored – cyfleusterau cyhoeddus, cyfarpar meysydd chwarae, cabanau aros bysiau a seddi
- c Gosodiadau a ffitiadau mewnol – cyfarpar TG a dodrefn
- ch Addurndlysau dinesig

1.24 Nodir gwerth yr asedau hyn yn ffurflenni blynyddol y cynghorau. Wrth i awdurdodau unedol drosglwyddo asedau i gynghorau lleol, mae gwerth yr asedau a ddelir gan gynghorau yn cynyddu. Mae'n debyg y bydd cynnydd sylweddol pellach yng ngwerth asedau yn y dyfodol ac mae angen i gynghorau sicrhau bod ganddynt drefniadau rheoli asedau digonol a phriodol ar waith ar gyfer rheoli a gwarchod yr adnoddau cyhoeddus hyn.

Arddangosyn 6: asedau hirdymor a sefydlog

Ers 2014-15, mae gwerth asedau hirdymor a reolir gan gynghorau lleol wedi cynyddu o £201 miliwn i £215 miliwn




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Rhan 2

# Mae lle i gynghorau lleol yng Nghymru wella eu hamseroldeb o ran cyhoeddi eu cyfrifon blynyddol archwiliedig ac ansawdd y ffurflenni blynyddol a gyflwynir i'w harchwilio o hyd



## Methodd dros 80 o gynghorau â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig

### Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi amserlen glir ar gyfer cyhoeddi datganiadau cyfrifyddu cynghorau lleol

2.1 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

a mae'n rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor baratoi ac ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn ardystio i hynny drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Darperir ar gyfer llofnodi a dyddio yn y ffurflen flynyddol.

b mae'n rhaid i gyfarfod yr aelodau yn ei gyfanrwydd ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad gan y corff; ac ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu'n cael eu llofnodi a'u dyddio gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y rhoddwyd y gymeradwyaeth honno,

c Mae'n rhaid i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

d hefyd, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu ynghyd â thystysgrif, barn neu adroddiad yr archwilydd erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

### Methodd dros 80 o gynghorau â chadw at yr amserlen a nodir yn y Rheoliadau ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig

2.2 Nododd yr archwilwyr 81 o gynghorau a oedd wedi methu â chyflawni eu rhwymedigaethau cyhoeddi o dan y Rheoliadau. Mae gan y rhan fwyaf o'r cynghorau hyn incwm a gwariant blynyddol o lai na £60,000. Enwir pob un o'r cynghorau hyn yn Atodiad 1. Rwy'n argymell y dylai'r cynghorau hyn adolygu eu trefniadau er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amserlen hon yn y dyfodol.

2.3 Mae'n siomedig nodi bod 21 o gynghorau wedi methu â chyflwyno eu datganiadau blynyddol i'w harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2017, tua dau fis ar ôl y dyddiad yr oedd yn ofynnol i'r cynghorau gyhoeddi cyfrifon archwiliedig a phum mis ar ôl y dyddiad roedd yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y cynghorau. Bwriadaf wneud gwaith dilynol ar bob cyngor nad yw wedi cyflwyno ei ddatganiadau blynyddol yn 2018. Byddaf hefyd yn ystyried p'un a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd mewn cynghorau unigol, mewn perthynas â'r methiant i gyflwyno eu cyfrifon ar gyfer 2016-17 i'w harchwilio erbyn y dyddiad dyledus, ai peidio.

## Mae cynghorau yn aml yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n anghyflawn neu sy'n cynnwys gwallau syml

2.4 Dylai pob cyngor sicrhau bod y ffurflen flynyddol yn cael ei chwblhau'n llawn a'i gwirio cyn iddi gael ei chyflwyno i'w harchwilio. Eir i gostau archwilio ychwanegol pan fydd angen i archwilwyr ddychwelyd y ffurflen flynyddol i gynghorau er mwyn iddynt ei chywiro neu ei chwblhau.

### Nododd yr archwilwyr wallau yn natganiadau cyfrifyddu 86 o gynghorau

2.5 Mae'r datganiadau cyfrifyddu y mae'n rhaid i gynghorau lleol yng Nghymru eu cyflwyno yn syml, o ran strwythur a gofynion cyfrifyddu. Nododd archwilwyr fod 86 o gynghorau wedi gwneud gwallau syml wrth gwblhau eu datganiadau cyfrifyddu.

2.6 Er bod hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r 175 o gynghorau a wnaeth wallau tebyg yn 2015-16, gwnaeth 30 o gynghorau wallau syml yn natganiadau cyfrifyddu 2015-16 a 2016-17.

2.7 Ymhlith yr enghreifftiau o wallau syml a nodwyd gan archwilwyr mae:

a gwallau rhifyddol. Mewn rhai achosion, nid oedd y datganiadau cyfrifyddu yn adio i fyny. Mae hyn yn aml o ganlyniad i dalgrynnu ffigurau i'r bunt agosaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cynghorau'n sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu eu cyflwyno'n gywir.

b triniaeth anghywir o drafodion nas cyflwynwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn, yn aml bydd gwahaniaethau o ran amseriad rhwng cofnodi trafodion yn llyfr arian parod y cyngor a'r trafodyn yn cael ei glirio drwy gyfrif banc y cyngor. Fel rhan o'u gwaith o baratoi cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, bydd cynghorau'n cysoni'r llyfr arian parod â chyfriflen y banc. O dan arfer cyfrifyddu priodol, ni fydd addasu ar gyfer cysoni eitemau ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hytrach, cânt eu gwrthdroi os oes angen yn y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, mae gormod o gynghorau naill ai'n diwygio cyfrifon y flwyddyn flaenorol neu gyfrifon y flwyddyn gyfredol i ddileu effaith y trafodion nas cliriwyd. Effaith hyn yw bod y datganiadau cyfrifyddu yn cael eu cam-ddatgan.

c peidio â chynnwys cyfrifon banc na thrafodion. Mewn rhai achosion, mae cadw cofnodion gwael gan gynghorau yn golygu na chaiff balansau a ddelir mewn rhai cyfrifon banc a thrafodion sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon hynny eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn arwain at danddatgan balansau'r cyngor a cham-ddatgan ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r diffyg rheolaeth fewnol hefyd yn peryglu'r cronfeydd a ddelir gan y cyngor.

ch datgelu gwerthoedd asedau yn anghywir. Ymhlith gwallau cyffredin eraill a nodwyd roedd y ffaith nad oedd y ffigur ar gyfer asedau yn y datganiadau cyfrifyddu yn cyd-fynd â'r gofrestr asedau neu fod ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn wedi'u hepgor o'r datganiadau cyfrifyddu, neu'r ffaith bod ffigurau cymharol wedi'u diwygio a oedd yn golygu nad oeddent yn cyd-fynd â chyfrifon archwiliedig y flwyddyn flaenorol, cam-ddosbarthu costau ac incwm yn ogystal â gwallau o ran talgrynnu a chastio.

d cynnwys cronfeydd elusennol yn amhriodol. Roedd nifer fach o gynghorau wedi cynnwys cyfrifon banc a thrafodion cronfeydd elusennol yn y datganiadau cyfrifyddu, sy'n mynd yn groes i'w dyletswyddau ymddiriedol fel ymddiriedolwyr. Mae hyn yn arwain at orddatgan balansau'r cyngor a cham-ddatgan incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn. Mae hefyd yn peri risg y caiff cronfeydd elusennol eu defnyddio at ddibenion y cyngor ac fel arall.

## Cyflwynodd 174 o gynghorau ffurflenni blynyddol i'w harchwilio nad oeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn

2.8 Mae'r ffurflen flynyddol a baratoir gan gynghorau lleol wedi'i chynllunio i fod yn hawdd ei chwblhau ac mae'n cynnwys canllawiau ar gwblhau'r ffurflen flynyddol. Serch hynny, bob blwyddyn, mae'r archwilwyr yn nodi nad yw llawer o gynghorau yn cwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn. Mae problemau cyffredin a nodwyd yn 2016-17 yn cynnwys:

a methiant i gwblhau'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn llawn. Nodir y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf, mae'r cyngor yn gwneud nifer o haeriadau ynglŷn â'i drefniadau cyffredinol. Yn yr ail ran, mae'r cyngor yn nodi ei drefniadau mewn perthynas ag adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau llywodraethu yn ôl thema. Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau gan bob cyngor ac mae'n gysylltiedig â'r newidiadau yn y trefniadau archwilio ar gyfer 2016-17. Cafodd pob cyngor ei hysbysu'n flaenorol am y newidiadau i'r trefniadau archwilio a rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r themâu i'w hystyried ar gyfer 2016-17. Felly, mae'n siomedig nodi na chwblhawyd yr adran hon o'r ffurflen flynyddol gan rai cynghorau. Mae'n bwysig bod pob cyngor yn darllen ac yn deall y gofynion ac yn sicrhau ei fod yn cwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn.

b methiant i gynnwys manylion sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth neu'r Canllaw i Ymarferwyr. Mewn llawer o achosion, ni chwblhawyd y manylion gofynnol gan gynghorau. Roedd hyn yn cynnwys methiant i gynnwys cyfeiriad at gofnod fel tystiolaeth bod y cyngor wedi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol a methiant i gynnwys llofnodion yn unol â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

Rhan 3

# Mae cynghorau lleol yng Nghymru yn parhau i gael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi ond mae cynghorau yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwy cyffredin



## Bydd archwilwyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol

3.1 Nod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yw cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

3.2 Mae archwilwyr yn adolygu'r datganiadau cyfrifyddu, gan gynnwys yn y ffurflen flynyddol a'r haeriadau a wneir yn y datganiad llywodraethu blynyddol, er mwyn dod i gasgliad ynghylch a oes ai peidio:

- a tystiolaeth o bod y datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi'n briodol; a
- b ph'un a oes gan y cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

3.3 Mae archwilwyr yn mesur trefniadau'r cyngor yn erbyn ei gyfrifoldebau statudol ac yn rhoi barn 'amodol' pan fyddant yn nodi diffyg cydymffurfiaeth. Mae hyn yn golygu, ac eithrio'r materion hynny y cyfeirir atynt gan yr archwilydd, nad yw'r archwilydd wedi nodi tystiolaeth sy'n awgrymu nad oes gan y cyngor drefniadau priodol ar waith. Fodd bynnag, mae modd osgoi pob barn amodol os oes gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol.


3.4 Bydd archwilwyr hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion eraill sydd wedi dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad. Dylai cynghorau ystyried y materion hyn fel y gallant wella ar eu trefniadau mewnol yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed.

## Cafodd dros 170 o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2016-17

3.5 Rhoddaf farn archwilio ddiamod pan na ddaw unrhyw faterion i'm sylw yn ystod yr archwiliad sy'n awgrymu bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion statudol neu reoliadol. Gall fy archwiliad hefyd nodi materion eraill y mae angen eu dwyn i sylw'r cyngor, er nad ydynt yn dynodi methiant i gydymffurfio â gofyniad statudol na gofyniad rheoliadol.

Arddangosyn 7: nifer y cynghorau a gafodd farn archwilio amodol yn 2016-17

Yn 2016-17, cafodd 25% o gynghorau farn archwilio amodol, cafodd 35% farn ddiamod ond tynnwyd materion eraill at eu sylw, a chafodd y 40% arall farn ddiamod ac ni nodwyd unrhyw faterion eraill i'w hystyried.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae'n galonogol bod nifer o gynghorau yn mynd i'r afael â'r problemau mwyaf cyffredin sy'n arwain at farn archwilio amodol

3.6 Rhoddodd yr archwilwyr farn amodol am nifer o resymau yn 2016-17. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd rhai a oedd yn ymwneud â haeriadau a wnaed gan y cynghorau eu bod wedi cydymffurfio a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r canlynol:

a cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;

b rhoi trefniadau ar waith i reoli risg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; a

c chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## Methodd 50 o gynghorau â pharatoi a chymeradwyo eu datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, o gymharu â 74 yn 2015-16

3.7 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen i gynghorau lleol baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.

### Arddangosyn 8: y broses gymeradwyo statudol ar gyfer cyfrifon cynghorau lleol

Mae'n rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r datganiadau cyfrifyddu cyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu, a'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor

→

Ar ôl i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu hardystio, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol, gan gynnwys y datganiadau cyfrifyddu, erbyn 30 Mehefin

3.8 Nododd yr archwilwyr, o'r cynghorau hynny sydd wedi cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio, nad oedd 50 o gynghorau wedi cadw at yr amserlen hon ar gyfer cyfrifon 2016-17. Mae'n debygol y bydd y ffigur hwn yn cynyddu wrth i'r cyfrifon hwyr, y cyfeiriwyd atynt uchod, gael eu cyflwyno ac wrth i'r dyddiad cymeradwyo ddod yn hysbys. Mae hyn yn cymharu â 74 o gynghorau a fethodd â chydymffurfio â gofynion ar gyfer 2015-16.

3.9 Nododd yr archwilwyr yr achosion canlynol:

a dim ond y datganiadau cyfrifyddu a ardystiwyd gan y swyddog ariannol cyfrifol ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol.

b roedd naill ai'r swyddog ariannol cyfrifol neu'r Cyngor neu'r ddau wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau erbyn 30 Mehefin. Mewn rhai achosion, digwyddodd hyn oherwydd cylchoedd cyfarfod cynghorau unigol a gallai'r cyngor fod wedi mynd i'r afael â hyn drwy newid ei amserlen gyfarfod arferol.

## Cafodd llai o gynghorau farn archwilio amodol yn 2016-17 am fethu â gwneud trefniadau priodol i reoli risg o gymharu â 2015-16

3.10 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi cyfrifoldeb y cyngor am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n helpu'r corff hwnnw i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

3.11 Mae hwn yn fater sy'n codi dro ar ôl tro yn y sector a chafodd ei nodi ym mhob un o adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau rheoli ariannol cynghorau lleol ers 2011-12.

3.12 Yn 2016-17, rhoddodd yr archwilwyr farn amodol am fethiant cynghorau i roi trefniadau ar waith i reoli risg mewn 29 o gynghorau. Yn 2015-16, cafodd 55 o gynghorau farn archwilio amodol a oedd yn ymwneud â rheoli risg.

## Gwrthododd archwilwyr roi barn neu rhoesant farn anffafriol ynghylch a oedd y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol mewn 11 o gynghorau

3.13 Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol baratoi cyfrifon yn unol ag arferion priodol.

3.14 Mae archwilwyr yn gwrthod rhoi barn, h.y. ni allant ddod i gasgliad bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, os na all y cyngor roi digon o dystiolaeth bod y cyfrifon yn gyflawn ac yn gywir. Mae archwilwyr yn rhoi barn anffafriol pan fo'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio yn anghywir neu pan fo digon o dystiolaeth i ddangos eu bod wedi'u cam-ddatgan.

3.15 Yn 2016-17, gwrthododd archwilwyr roi barn neu rhoesant farn anffafriol mewn 11 o gynghorau. Yn 2015-16, ni allai archwilwyr gael digon o dystiolaeth archwilio i ddod i'r casgliad bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol mewn 10 cyngor.

3.16 Roedd enghreifftiau o'r anawsterau a wynebodd archwilwyr ac a barodd iddynt ddod i'r casgliad hwn yn cynnwys:

a gwybodaeth annigonol i ategu gwerth asedau sefydlog;

b ni allai'r cyngor esbonio sut y cafodd cofnodion unigol yn y cyfrifon, ee cyfanswm taliadau, eu cyfrifo gan arwain at anghysondebau nas datryswyd; ac

c ni allai cynghorau gyflwyno cysoniad banc sydd wedi'i gwblhau'n briodol.

3.17 Er mai dim ond nifer fach o gynghorau y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt bob blwyddyn, mae'n bwysig bod pob cyngor yn sicrhau ei fod yn deall ei gyfrifon ac yn sicrhau bod y cyfrifon hynny'n cyflwyno'r incwm a'r gwariant/derbyniadau a thaliadau a'r balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn deg.

Rhan 4

Nid yw nifer sylweddol o gynghorau lleol yn deall y fframwaith llywodraethu y maent yn gweithredu oddi mewn iddo ac nid ydynt yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol



# Ni all llawer o gynghorau roi tystiolaeth eu bod wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau

## Mae'n rhaid i bob cyngor lleol fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau ac mae'n rhaid i bob aelod unigol gytuno i gadw at y Cod

4.1 Mae ymddygiad aelodau corff yn rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu'r corff hwnnw. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 crëwyd fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Creodd bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i'w gymhwyso at aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

4.2 Mae'n ofynnol i gynghorau lleol fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gall ychwanegu at y Cod, cyhyd â bod unrhyw ychwanegiadau yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Yna bydd y Cod a fabwysiedir yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.

4.3 Ar gyfer archwiliad 2016-17, ystyriodd yr archwilwyr sut roedd y Cod wedi cael ei fabwysiadu a cheisio tystiolaeth o'r canlynol:

a mae'r cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad;

b mae aelodau unigol wedi cytuno (ar adeg derbyn eu swydd) i gadw at y Cod; ac

c mae'r cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau aelodau.

## Ni all 65 o gynghorau ddangos eu bod wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau na bod yr aelodau wedi cytuno i gadw at y Cod

4.4 Nododd yr archwilwyr nad oedd 65 o gynghorau wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau.

4.5 Mae'r ffaith bod nifer o gynghorau wedi 'mabwysiadu'r' **Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru – Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned**, a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, fel eu Cod Ymddygiad yn destun pryder hefyd. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn rhoi trosolwg o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ('y Cod') a gyflwynwyd yn 2008. Bwriedir iddi helpu aelodau i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Cod. Fodd bynnag, nid yw'n God Ymddygiad ynddi ei hun.

## Ni all 99 o gynghorau roi tystiolaeth eu bod yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr buddiannau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

4.6 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol, ac os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Os oes ganddynt fuddiant y dylid ei ddatgelu, dylid datgan y ffaith bod buddiant a natur y buddiant hwnnw mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys negeseuon e-bost, ac wrth wneud sylwadau llafar. Mae angen gwneud y datgeliad hwn hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r cyngor.

4.7 O dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae'n ofynnol i gynghorau gynnal cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno yn electronig.

4.8 Nododd fy archwilwyr nad yw 99 o gynghorau yn cynnal cofrestr o fuddiannau ac/neu nad ydynt yn cyhoeddi'r gofrestr honno yn electronig. Mewn llawer o achosion, er bod aelodau yn datgan buddiannau mewn cyfarfodydd fel rhan o'r drefn, mae'r cyngor wedi methu â chydnabod bod yn rhaid iddo gynnal a chyhoeddi cofrestr.

## Er bod nifer y cynghorau â gwefannau wedi cynyddu'n sylweddol, nid oes gan 108 o gynghorau drefniadau digonol ar waith i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

4.9 Mae bellach yn arferol i rannau helaeth o'r cyhoedd ddefnyddio'r rhyngrwyd, e-bost a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i gael gwybodaeth am eu hardal leol, nodi gwasanaethau sydd ar gael a chysylltu â chyrff cyhoeddus. Yn eu tro, mae cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi gwybodaeth am eu busnes, eu strwythur a'u swyddogaethau mewn fformat electronig yn rheolaidd. Nododd arolwg o gynghorau cymuned a thref, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010, fod gan tua hanner y cynghorau cymuned a thref wefan.

4.10 Er bod cynghorau cymuned a thref yn sefydliadau cymharol fach, ar y cyfan, nid ystyrir ei bod yn briodol mwyach ddarparu gwybodaeth am eu trafodion mewn copi caled a'i roi ar hysbysfyrddau mewn mannau gwahanol yn eu hardal yn unig. Er mwyn bod yn berthnasol i fywydau eu hetholwyr, mae bellach yn hanfodol bod gwybodaeth am gynghorau cymuned a thref yn cael ei darparu ar y rhyngrwyd ac y gellir cysylltu â chynghorau drwy e-bost neu drwy ddefnyddio dulliau electronig eraill.

4.11 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) mae'n ofynnol i bob cyngor lleol gyhoeddi ei fanylion cyswllt a manylion ei aelodau a chofnodion o'i drafodion ar y rhyngrwyd. O dan Ddeddf 2013 mae hefyd yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwneud cynghorau lleol yn fwy atebol i'w hetholwyr. Ym mis Mawrth 2013, rhyddhaodd Gweinidogion Cymru £1.25 miliwn i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol er mwyn cefnogi democratiaeth leol a gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Bwriadwyd i ran o'r arian hwn gael ei defnyddio i ddatblygu gwefannau ar gyfer cynghorau cymuned a thref, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf 2013. Cafodd pob prif gyngor arian a oedd yn cyfateb i £500 ar gyfer pob cyngor cymuned a thref yn ei ardal. Mater i'r awdurdodau unedol benderfynu arno oedd sut y câi'r arian hwn ei ddyrannu.

4.12 Canolbwyntiodd fy archwiliad yn 2016-17 ar sut mae cynghorau lleol yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013. Cymysg fu'r canlyniadau.

4.13 Nododd fy archwilwyr fod gan 85% o gynghorau wefan weithredol y maent yn cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi'n electronig o dan Ddeddf 2013 arni. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â chanfyddiadau 2010 Llywodraeth Cymru.

4.14 Fodd bynnag, nododd yr archwilwyr nad oes gan 108 o gynghorau eu gwefan eu hunain ac nad ydynt wedi gwneud trefniadau eraill i gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn statudol, yn electronig. Mewn rhai achosion, mae gwefannau wedi'u sefydlu ond nid ydynt wedi'u cynnal. Er enghraifft, mae un cyngor tref mawr wedi sefydlu gwefan ond cyhoeddwyd y wybodaeth fwyaf diweddar ar y wefan yn 2013.

## Rhan 5

# Nid oes gan dros 50 o gynghorau lleol drefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion



## Os yw cynghorau lleol yn cyflogi staff fel arfer mae'n rhaid iddynt gofrestru â Chyllid a Thollau EM fel cyflogwr

5.1 Fel arfer mae angen i sefydliadau gofrestru fel cyflogwr â Chyllid a Thollau EM (CThEM) pan fyddant yn dechrau cyflogi a thalu staff. Mae gan gynghorau lleol un swyddog cyflogedig fel arfer, sef y Clerc. Mae'r rhan fwyaf o'r clercod hyn yn gweithio'n rhan amser, gyda'u horiau yn amrywio o un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o oriau y chwarter mewn cysylltiad â chyfarfodydd y Cyngor.

5.2 Fodd bynnag, deiliad swydd yw'r Clerc ac, mae taliadau a dderbynnir, p'un a ydynt yn cael eu disgrifio fel honorariwm, cyflog, tâl tuag at dreuliau neu gyfuniad o'r rhain, yn drethadwy fel incwm cyflogaeth ac mae rhwymedigaeth ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYGau) Dosbarth 1.

5.3 Fel cyflogwyr, mae'n rhaid i gynghorau lleol weithredu trefniadau 'Talu Wrth Ennill' (TWE) fel rhan o'u cyflogres fel arfer. TWE yw'r system a ddefnyddir gan CThEM i gasglu treth incwm ac yswiriant gwladol oherwydd cyflogaeth. Fodd bynnag, ceir eithriadau i'r gofyniad hwn. Er enghraifft, nid oes angen i gyflogwyr gofrestru ar gyfer TWE os nad oes unrhyw gyflogeion yn cael tâl o £112 neu fwy yr wythnos, neu'n cael treuliau neu fuddiannau, neu'n dal unrhyw swydd arall neu'n cael pensiwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cyflogwr gadw cofnodion cyflogres.

## Nid oedd gan fwy na 50 o gynghorau drefniadau ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion yn ystod 2016-17 a rhoddodd cynghorau eraill drefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn honno

5.4 Nododd yr archwilwyr 54 o gynghorau nad oedd ganddynt drefniadau ar waith ar gyfer rheoli trethiant cyflog swyddogion yn 2016-17. At hynny, nododd yr archwilwyr achosion lle roedd cynghorau wedi rhoi trefniadau ar waith mor ddiweddar â 2016-17.

5.5 O ganlyniad, mewn rhai achosion, nid yw treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol wedi'u didynnu fel sy'n ofynnol o dan drefniadau TWE CThEM. Felly, mae rhai cynghorau wedi cael eu dirwyo a/neu wedi gorfod talu llog a godwyd gan CThEM am eu bod wedi methu â thalu'r dreth ddyledus ar amser, a hynny'n ddiangen.

## Rhan 6

Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2017-18 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau lleol wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu a bydd yn cynnwys astudiaeth genedlaethol o effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol



## Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorau yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn

6.1 Gyda'i gilydd, yn 2016-17, cynyddodd cynghorau lleol y symiau a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn £2.5 miliwn i £41.5 miliwn am fod cynghorau, ar y cyfan, wedi gwario llai o arian nag a gawsant drwy'r dreth gyngor a ffynonellau incwm eraill.

## Nododd fy adroddiad ar gyfrifon 2015-16 fod cynghorau yn aml yn methu ag ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu cyllideb flynyddol a'u praesept

6.2 Nid oes gan gynghorau lleol unrhyw bŵer cyffredinol i ddal symiau mawr fel cronfeydd ariannol wrth gefn. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i gynghorau neilltuo arian penodol fel cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys derbyniadau cyfalaf nad ydynt ar gael i dalu am gostau'r cyngor o ddydd i ddydd.

6.3 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gynghorau lleol ystyried cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu praesept. Ystyriodd yr archwilwyr y cyllidebau a bennwyd gan y cynghorau a nodwyd mai un o'r methiannau mwyaf cyffredin oedd nad oedd cynghorau unigol yn ystyried y symiau yr oeddent yn eu dal mewn cronfeydd wrth gefn.

6.4 Yn 2016-17, cododd 693 o gynghorau lleol braesept a oedd yn cyfateb i'r praesept a godwyd yn 2015-16 neu'n fwy nag ef.

## Bydd fy ngwaith archwilio yn 2017-18 yn adolygu sut mae cynghorau yn ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu cyllidebau a sut maent yn bwriadu defnyddio eu cronfeydd wrth gefn cronedig i ddarparu gwasanaethau i drethdalwyr

6.5 Bydd fy archwilwyr yn ceisio tystiolaeth gan y cynghorau eu bod wedi gwneud y canlynol:

a ystyried eu cronfeydd wrth gefn cronedig wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2017-18 a 2018-19; a

b rhoi cynlluniau ar waith i reoli eu cronfeydd wrth gefn cronedig.

## Bydd fy archwiliad ar gyfer 2017-18 yn ystyried sut mae cynghorau yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â thaliadau rhodd a grantiau a delir o dan 'adnodd rhydd' adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

### Yn 2017-18, byddaf yn gwneud gwaith dilynol ar y ffordd y mae cynghorau yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

6.6 Yn 2015-16, cyflwynais adroddiad ar y ffordd roedd cynghorau yn defnyddio'r 'adnodd rhydd' sydd ar gael o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

6.7 Cyrff statudol yw cynghorau lleol a dim ond y cyfryw bwerau a roddir iddynt drwy statud sydd ganddynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt allu nodi pŵer statudol penodol ar gyfer pob un o'u gweithredoedd. Er gwaethaf hyn, yn amodol ar rai materion ffurfiol, mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi pŵer cyffredinol i gynghorau lleol wario hyd at derfyn penodol ym mhob blwyddyn ariannol at unrhyw ddiben sydd, ym marn y cyngor, er budd yr ardal neu ei thrigolion, neu a fydd o fudd uniongyrchol i'r ardal neu ei thrigolion. Fodd bynnag, pan fo gan y cyngor bŵer statudol penodol, dylai gael ei gymhwyso yn hytrach nag adran 137.

6.8 Nododd yr archwilwyr fod cynghorau yn gwneud taliadau'n rheolaidd sy'n dibynnu ar adran 137 er bod pŵer penodol mwy priodol ar gael.

6.9 Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn ceisio tystiolaeth bod pwerau gwario sydd ar gael o dan adran 137 o Ddeddf 1972 wedi'u cymhwyso'n briodol.

### Nododd yr archwilwyr fod gan sawl cyngor gronfeydd arian rhodd ar gyfer swyddogion y cynghorau

6.10 Yn y gorffennol mae cynghorau lleol wedi rhoi taliadau rhodd i glercod ar adeg ymddeol. Fodd bynnag, roedd y taliadau hyn yn rhodd gan y cyflogwr a dim ond ar adeg ymadawiad cyflogai y gellid eu rhoi. Nodwyd y sail statudol dros daliadau o'r fath yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgresiwn) 1996.

6.11 Cafodd y Rheoliadau Taliadau yn ôl Disgresiwn eu diwygio ar wahanol adegau nes eu diddymu yn y pen draw ym mis Ionawr 2012. Felly, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sail statudol dros wneud taliad rhodd oni bai bod gan gyflogeion hawl i gael y cyfryw daliad a nodir yn eu contract cyflogaeth a luniwyd cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei diddymu.

6.12 Er gwaethaf hyn, nododd yr archwilwyr fod gan nifer o gynghorau gronfeydd arian rhodd a'u bod yn dal cronfeydd o'r fath mewn cyfrifon banc ar wahân o bosibl. Mae'r archwilwyr hefyd wedi nodi achosion o ordalu rhoddion i swyddogion unigol.

6.13 Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn ceisio cadarnhau bod cynghorau lleol yn gweithredu o fewn y gyfraith mewn perthynas â threfniadau ar gyfer rhoddion.

## Yn 2018, rwy'n bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol o waith archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn gweld a yw'n ddigonol ac yn effeithiol a nodi arfer da y gellir ei rannu ym mhob rhan o'r sector

### Mae swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn rhan hanfodol o system rheolaeth fewnol unrhyw gyngor

6.14 Mae gwaith archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r trefniadau rheolaeth fewnol y mae'n ofynnol i bob cyngor eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n flynyddol.

6.15 Gall y canlynol fod yn dystiolaeth o waith archwilio mewnol digonol ac effeithiol:

a cylch gorchwyl clir a chynhwysfawr ar gyfer yr archwilydd mewnol sy'n nodi cwmpas y gwaith sydd i'w wneud;

b dogfennaeth archwilio mewnol sy'n manylu ar y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd; ac


c adroddiad manwl a gyflwynwyd i'r cyngor sy'n nodi canlyniadau a chasgliadau'r archwilydd mewnol.

### Mae nifer fawr o archwilwyr mewnol ledled Cymru, er bod tri archwilydd yn darparu gwasanaethau i fwy na chwarter yr holl gynghorau

6.16 Mae mwy na 330 o archwilwyr mewnol yn cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol i gynghorau cymuned. Mae'r rhan fwyaf ond yn darparu gwasanaeth i'w cyngor cymuned. Mewn rhai achosion, mae archwilwyr yn darparu gwasanaethau i fwy nag un cyngor. Nododd fy nadansoddiad o gyfrifon 2016-17 dri archwilydd unigol sy'n darparu gwasanaethau i 27% o'r holl gynghorau. Mae'r cynghorau hyn yn gwario tua 40% o holl wariant cynghorau lleol yng Nghymru.

Arddangosyn 9 – darparwyr gwasanaeth archwilio mewnol

Mae tri archwilydd mewnol yn darparu gwasanaethau archwilio i 27% o'r holl gynghorau lleol yng Nghymru.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae fy ngwaith archwilio presennol a blaenorol wedi nodi nifer o bryderon ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol ym mhob rhan o'r sector

6.17 Ystyriodd archwiliad allanol 2015-16 p'un a oedd cynghorau wedi cytuno ar gylch gorchwyl â'u harchwilydd mewnol ai peidio.

6.18 Yn fy adroddiad Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned 2015-16, nodais y bydd llawer o gynghorau cymuned lleol yn ei chael hi'n anodd dangos bod ganddynt system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar waith, a'u bod yn cael gwerth llawn gan y gwasanaeth hwnnw. Nodais nad oedd gan 64% o'r cynghorau gylch gorchwyl cyflawn ac na chafodd 32% adroddiad gan yr archwilydd. Mae'n debyg y bydd y ddau fater hyn yn gysylltiedig â'i gilydd: gall diffygion yn y trefniadau adrodd yn aml ddeillio o ddiffygion yn y cylch gorchwyl rhwng y ddau barti. Tynnodd fy adroddiad sylw hefyd at anghysondebau rhwng canfyddiadau archwilwyr mewnol a chanfyddiadau'r archwilydd allanol.

6.19 Mae fy ngwaith ar gyfrifon 2016-17 wedi cadarnhau fy mhryderon a nodwyd yn fy adroddiad ar gyfer 2015-16. Rwyf wedi edrych yn fanwl ar waith y gwasanaeth archwilio mewnol mewn nifer fach o gynghorau a chanfûm fod y gwaith o safon wael.

6.20 Nodais fod y casgliadau a gofnodwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn anghyson â'r dystiolaeth a gafodd yr archwilwyr allanol gan y cyngor. Mae archwilwyr allanol wedi edrych ar gofnodion y gwaith archwilio mewnol ac wedi nodi bylchau sylweddol yn y dystiolaeth y byddai ei hangen i ategu'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Mewn rhai achosion, roedd yn amlwg nad oedd unrhyw waith archwilio mewnol wedi'i gwblhau, neu nad oedd digon o waith archwilio mewnol wedi'i gwblhau, i ategu'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

6.21 Oherwydd hyn, rwy'n pryderu y gall y materion a nodwyd fod yn arwydd o fethiannau ehangach o fewn gwasanaethau archwilio mewnol ym mhob rhan o'r sector.

## Yn 2018, rwy’n bwriadu cynnal astudiaeth genedlaethol o wasanaethau archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn ystyried y cwestiwn ‘A oes gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith?’

6.22 Cynnal astudiaeth genedlaethol yw’r ffordd fwyaf costeffeithiol o asesu digonolrwydd gwasanaethau archwilio mewnol yn gyffredinol a nodi a lledaenu arfer da. Rwy’n bwriadu cynnal astudiaeth i ystyried y cwestiwn ‘A oes gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith?’ Ar hyn o bryd, mae fy staff yn datblygu cwmpas yr astudiaeth a byddai syniadau cychwynnol ynglŷn â’r meysydd penodol i’w hastudio yn cynnwys:

a A yw’r cylch gorchwyl ar gyfer archwilwyr mewnol yn gyflawn ac yn gadarn?

b A yw cwmpas y gwaith archwilio yn briodol i faint cynghorau a’r risg i gyllid cyhoeddus?

c A yw casgliadau’r gwasanaeth archwilio mewnol yn cael eu hategu gan ddigon o dystiolaeth o brofion cadarn a gynhaliwyd gan yr archwilydd mewnol?

ch A yw cynghorau yn cael eu hysbysu’n briodol am ganfyddiadau a chasgliadau’r archwilydd mewnol?

d A yw cynghorau yn cymryd camau priodol mewn ymateb i faterion a godir gan archwilwyr mewnol?

6.23 Byddai’r astudiaeth yn edrych ar waith archwilio mewnol a wnaed ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 neu 2016-17 ac yn ystyried sut yr ymdriniodd cynghorau ag argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol yn y blynyddoedd ariannol 2016-17 neu 2017-18. Byddaf yn ymgynghori ar yr astudiaeth arfaethedig yn 2018.

## Gan edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt i hynny, bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer cynghorau lleol yn parhau i edrych ar faterion cyffredin sy'n codi yn ystod yr archwiliad blynyddol

### Bob blwyddyn, nodaf nifer o faterion cyffredin neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro fel rhan o'm gwaith archwilio blynyddol, a chaiff y rhain eu hystyried fel rhan o'r rhaglen archwilio yn y dyfodol

6.24 Fel y nodir uchod, rwy'n parhau i nodi materion sy'n codi dro ar ôl tro fel rhan o'm gwaith archwilio arferol. Mae'n briodol i mi ymgorffori adolygiadau llywodraethu thematig o'r materion hyn fel rhan o'm rhaglen archwilio flynyddol.

6.25 Bydd y materion a nodir i'w hadolygu yn rhai a nodir yn gyffredin neu'n rhai ac iddynt effaith bosibl sylweddol ar gynghorau lleol a'u defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.


### Mae cynghorau mwy o faint yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd fy rhaglen yn y dyfodol yn ymgorffori adolygiad o ymateb cynghorau mwy o faint i'r Ddeddf

6.26 Mae Adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi rôl cynghorau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol. Mae'n nodi bod cynghorau sydd ag incwm neu wariant blynyddol gwerth dros £200,000 ar gyfer tair blynedd neu fwy'n olynol yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol ond cyfyngedig o dan y Ddeddf.

6.27 Yn 2016-17, roedd incwm neu wariant 67 o gynghorau dros £200,000. Mae'r nifer hon yn cynyddu bob blwyddyn.

Arddangosyn 10: cynghorau lleol sydd ag incwm neu wariant blynyddol dros £200,000

Cynyddodd nifer y cynghorau lleol ag incwm neu wariant blynyddol dros £200,000 o 64 yn 2014-15 i 67 yn 2016-17




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

6.28 Mae gan 51 o gynghorau incwm neu wariant dros £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf. Bydd gofynion y Ddeddf bellach yn gymwys i'r cynghorau hyn. Roedd gan bedwar cyngor arall incwm neu wariant dros £200,000 yn 2015-16 a 2016-17. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr lawn o'r cynghorau hyn.

6.29 Mae gan y cynghorau hyn ddyletswydd benodol neu gyfyngedig o dan y Ddeddf i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun llesiant lleol. Bob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar y cynnydd y maent wedi'i wneud i gyflawni'r amcanion lleol.

6.30 Bydd angen i'r cynghorau a nodwyd gennyf fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a chynllunio ar gyfer eu cyflawni. Mae fy rhyngweithio â chynghorau hyd yma yn awgrymu bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n gymwys i'r sector.

6.31 Er nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi wneud gwaith archwilio penodol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn, yn fy marn i, bydd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol ymgorffori ystyriaeth o'r gofynion hyn yn fy rhaglen archwilio er mwyn cynorthwyo'r cynghorau hyn a rhannu arfer da. Rwy'n bwriadu ystyried ymateb y sector i'r Ddeddf mewn modd cymesur drwy integreiddio adolygiad cychwynnol o'r adroddiadau a luniwyd gan gynghorau lleol yn y broses archwilio statudol bresennol ar gyfer 2020-21. Byddaf yn gweithredu mewn modd sy'n gymesur â maint y sector, ac nid yw'r manylion yn derfynol eto.

## Nodir fy rhaglen o adolygiadau llywodraethu thematig yn y dyfodol mewn cynllun pedair blynedd, er y gall hyn newid am ei bod yn bosibl y bydd materion eraill yn dod i'r golwg

6.32 Amcan y trefniadau archwilio newydd a gyflwynwyd ar gyfer 2015-16 yw ystyried ac asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cynghorau lleol dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd yr adolygiadau yn canolbwyntio ar themâu sydd wedi codi dro ar ôl tro fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol a byddant yn helpu cynghorau i wella eu trefniadau lle y bo angen dros amser. Noda Arddangosyn 11 fy amserlen arfaethedig bresennol ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol, er y gall y rhain newid.

### Arddangosyn 11: themâu llywodraethu yn y dyfodol

Bydd fy rhaglen archwilio arfaethedig ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol ar gyfer cynghorau lleol yn dilyn cynllun pedair blynedd yn fras, er y gall hyn newid.

| 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Y defnydd o gronfeydd wrth gefn<br><br>Y defnydd o adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972<br><br>Taliadau rhodd | Cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog<br><br>Dirprwyo i bwyllgorau | Trefniadau ar gyfer gwneud taliadau | Cyflogi staff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

# Atodiadau



Income Statement
PM Ratio
0.2
Gross Profit on sales
0.82
Basic Earning
0.28
Revenue
ANALYSIS REPORT
Summary sale
1 year

# Atodiad 1

## Cynghorau â chyfrifon hwyr ar 30 Tachwedd 2017

### Arddangosyn 12: cynghorau â chyfrifon hwyr ar 30 Tachwedd 2017

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Cydbwyllgor Claddu Abergele | – | Ar y gweill | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Aberporth | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd | Ar y gweill | Ar y gweill | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Betws Garmon | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Bodorgan | Ar y gweill | Nis cafwyd | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Bontnewydd | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Cadfarch | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Cilcain | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Corneli | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Cynwyd | – | Nis cafwyd | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Chwitffordd | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Glantwymyn | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Llanbrynmair | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Llaneurgain | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Llanfairpwll | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llangadog | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus | Ar y gweill | Nis cafwyd | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llangwm (Conwy) | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llangynog (1) | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llanismel | – | – | Nis cafwyd |

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Llanwnnen | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Maenclochog | – | Nis cafwyd | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Penalun | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Pentir | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Pentraeth | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Rhosyr | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Cymuned Tirymynach | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned y Rhigos | – | – | Ar y gweill |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Tref Machynlleth | – | Ar y gweill | Ar y gweill |
| Cyngor Tref Maesteg | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Tref Rhydaman | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Tref Saltney | – | – | Nis cafwyd |
| Cyngor Tref Tywyn | – | – | Ar y gweill |

# Atodiad 2

## Cynghorau sydd ag incwm/gwariant blynyddol dros £200,000

### Arddangosyn 13: cynghorau sydd ag incwm/gwariant blynyddol dros £200,000

Testun cryno

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Blaenhonddan | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Coedffranc | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Coedpoeth | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Cwmbrân | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Gwersyllt | | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Gwledig Llanelli | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Llangennech | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Llanedi | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdre | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Llannon | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Llantrisant | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Parc Caia | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Penarlâg | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Pen-bre a Phorth Tywyn | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned Tonyrefail a'r Cylch | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Cymuned y Tŷ Du | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Dinas Bangor | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Dinas Tyddewi | | Ie | Ie |

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Aberdaugleddau | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Aberystwyth | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Aberhonddu | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Biwmares | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Bwcle | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Caergybi | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Caerfyrddin | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Cas-gwent | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Castell-nedd | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Cei Connah | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Cil-y-coed | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Conwy | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Cwmaman | | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Hwlffordd | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Llandudno | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Llanelli | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Llanilltud Fawr | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Machynlleth | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Maesteg | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Penarth | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | Ie | Ie | Ie |

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Pontypridd | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Porthcawl | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Prestatyn | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Trefynwy | | Ie | Ie |
| Cyngor Tref y Barri | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref y Fenni | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref y Rhyl | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref y Trallwng | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref yr Wyddgrug | Ie | Ie | Ie |
| Cyngor Tref Ystradgynlais | Ie | Ie | Ie |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru